



**ADSS Cymru**

Yn arwain Gwasanaethau  
Cymdeithasol yng Nghymru

Leading Social Services in Wales

## **CYMDEITHAS CYFARWYDDWYR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (ADSS) CYMRU**

**Blaenoriaethau Strategol Cenedlaethol (2021-2024) a**

**Datganiadau Sefyllfa ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac  
Oedolion yng Nghymru**

**Awst 2021**

## Cynnwys

• Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru	3
• Rhagair gan lywydd ADDS Cymru	4
• Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer 2021-2024	5
➤ Blaenoriaeth 1: Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael cefnogaeth, adnoddau a gwerthfawrogiad priodol, ynghyd â'r sgiliau a'r gwydnwch i gyflawni'r gwasanaethau ymatebol o safon y mae eu hangen ar bobl.	6
➤ Blaenoriaeth 2: Rydym am sicrhau bod pobl a chymunedau wrth wraidd y gwaith o ailfodelu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.	7
➤ Blaenoriaeth 3: Rydym am sicrhau bod gan bobl ddewis a rheolaeth wirioneddol o ran sut y cyflenwir eu gofal.	8
➤ Blaenoriaeth 4: Mae cynaliadwyedd yn ganolog i'r gwaith o ail-gydbwysu gofal a chymorth, a bydd gan awdurdodau lleol hyder y gall gwasanaethau ddiwallu anghenion pobl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.	9
• Datganiad Sefyllfa Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHOCS)	10
• Datganiad Sefyllfa Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru Gyfan (AWASH)	16

## Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru yw'r sefydliad arweinyddiaeth broffesiynol a strategol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n cynnwys cyfarwyddwyr statudol y gwasanaethau cymdeithasol a'r penaethiaid gwasanaethau a rheolwyr haen tri sy'n eu cefnogi wrth gyflawni cyfrifoldebau statudol: sef grŵp o oddeutu 300 o arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rôl ADSS Cymru yw cynrychioli llais awdurdodol a chyfunol cyfarwyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol a phenaethiaid gwasanaethau oedolion a phlant, ynghyd ag uwch-weithwyr proffesiynol arweiniol sy'n cefnogi oedolion agored i niwed a phlant, eu teuluoedd a'u cymunedau ar amrywiaeth o faterion cenedlaethol a rhanbarthol o ran polisi, arfer ac adnoddau gofal cymdeithasol. Dyma'r unig gorff cenedlaethol sy'n gallu mynegi barn y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n arwain ein gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Fel sefydliad a arweinir gan aelodau, mae ADSS Cymru'n ymrwymedig i ddefnyddio cyfoeth profiad ac arbenigedd ei haelodau, gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ddylanwadu ar y penderfyniadau strategol pwysig ynghylch datblygu sut y caiff gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyhoeddus eu cyflenwi, er lles y bobl y mae'n eu cefnogi a'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny.

## Rhagair gan lywydd ADDS Cymru

Mae'r 18 mis diwethaf wedi bod y rhai mwyaf heriol yn ein hoes. Nid ydym wedi gweld argyfwng iechyd cyhoeddus mor ddifrifol â hwn, ac ar y radd hon, ers dros gant o flynyddoedd. Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau, a bydd y daith i ailadeiladu ar ei ôl yn llunio penderfyniadau polisi cyhoeddus am flynyddoedd i ddod.

Er ein bod wedi cydnabod ers tro byd yr heriau rydym i gyd yn eu hwynebu wrth gyflenwi gwasanaethau arloesol ac ymatebol o safon i'r rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, pa oedran bynnag ydynt a lle bynnag maent yn byw yng Nghymru, rydym bellach yn wynebu cyfres hyd yn oed yn fwy o heriau. Bydd yr heriau hyn yn effeithio ar fywydau pobl a gallu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gyflawni am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae canlyniadau'r pandemig iechyd byd-eang a chyflwr posib ein cyllid cyhoeddus yn golygu y bydd angen i ni adnewyddu, arloesi a newid y ffordd rydym yn gweithio, y ffordd rydym yn ymgysylltu â dinasyddion, ac, yn fwy hanfodol, y ffordd rydym yn cyflenwi gwasanaethau.

Er ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr amcan o gyflenwi gwasanaethau di-dor ac integredig yn y GIG mewn ffordd deg a chyfiawn, mae'r pwysau ar weithredu mewn amgylchedd ôl-bandemig sydd wedi cael effaith ar y gweithlu a lle mae adnoddau ariannol ansicr yn golygu bod angen i ni flaenoriaethu ein gwaith a'n hymdrech ar y cyd.

Mae angen i lais cenedlaethol arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer gwaith cymdeithasol gael ei godi yn awr yn fwy nag erioed. Fel llywydd ADDS Cymru, rwyf am sicrhau bod barn ein haelodau, sydd wedi'i gwreiddio yn eu proffesiwn fel ymarferwyr yn cyflenwi gwasanaethau allweddol i bobl wyneb yn wyneb, yn cyfrannu at y meddwl cenedlaethol sydd ei angen i ddod o hyd i'r atebion ymarferol i'r heriau cyfredol rydym yn eu hwynebu.

Mae'r gyfres hon o flaenoriaethau strategol cenedlaethol a datganiadau sefyllfa – un i wasanaethau plant ac un i wasanaethau oedolion – yn darparu cipolwg a chyd-destun o ran yr hyn y mae ein proffesiwn wedi gorfod ei ddioddef, ac yn parhau i'w ddioddef, ar reng flaen ymateb y sector cyhoeddus i'r pandemig COVID-19, ond hefyd yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud ar frys i ailadeiladu ein cymunedau, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac adfer ein gweithlu.



**Jonathan Griffiths**

**Llywydd ADDS Cymru 2021-2021**

## Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer 2021-2024

Fel y sefydliad cenedlaethol ar gyfer arweinyddiaeth broffesiynol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ein gweledigaeth yw sicrhau bod plant ac oedolion mewn angen yn profi llesiant ac yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt drwy gael mynediad i'r gofal a chymorth cywir ar yr adeg gywir yn eu cymunedau, a'n bod yn sicrhau bod plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu diogelu.

Rydym yn credu mewn gweithio mewn partneriaeth â'r sector gofal cymdeithasol ac iechyd ehangach i wella gwasanaethau, wrth gynnal yn lleol yr ymreolaeth, hyblygrwydd dull ac amrywiaeth dewis sy'n cefnogi pobl i gael llais a rheolaeth wirioneddol mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent am eu cael a sut maent am iddynt gael eu cyflawni. Rydym yn cydnabod yn ein blaenoriaethau yr angen i barhau i ail-gydbwysu'r sector i sicrhau bod dewis yn cael ei gynnig i blant ac oedolion.

Mae ein haelodau'n adnabod y bobl maent yn eu gwasanaethu'n fwy cynhwysfawr nag unrhyw ddarparwr arall yn y gwasanaethau cyhoeddus ac yn deall pwysigrwydd cynhenid gofal cymdeithasol ar draws pob oedran ac ym mhob rhan o'u cymuned. Rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau i gyflawni gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol a chynaliadwy o safon yn y blynyddoedd i ddod. Er bod yr heriau hyn wedi cael eu gwaethygu gan effaith y pandemig COVID-19, roedd yr angen i gael trawsnewidiad systematig yn anochel, nid yn unig i fodloni dyheadau newidiol y cyhoedd ynghylch dyfodol gwasanaethau gofal, ond hefyd i fodloni ymrwymïadau hirdymor y llywodraeth i'r newid yn yr hinsawdd. Felly, rydym yn cydnabod, yn fwy nag erioed, fod angen i ni ddatblygu a mabwysiadu dulliau arloesol a hyblyg i'r gwaith o gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'n rhaid i'r modelau a dulliau newydd hyn fod yn seiliedig ar ymchwil o safon a sail dystiolaeth gadarn i'n galluogi i symud y tu hwnt i adfer y sector yn unig, ond i ymateb yn wirioneddol i anghenion newidiol unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym yn credu bod llais ADSS Cymru ar y cyd yn hanfodol i sicrhau bod yr anghenion hyn yn parhau i fod wrth wraidd y gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd di-dor a nodir yn *Cymru Iachach*, yn ogystal â sicrhau bod yr holl asiantaethau'n cael eu dwyn i gyfrif am eu dyletswyddau i ddarparu gofal a chymorth ac y gall cyfleoedd i wella canlyniadau gael eu gwireddu'n llawn.

Drwy ein profiad ar y cyd fel arweinwyr ac ymarferwyr proffesiynol, ynghyd â'r dystiolaeth a gasglwyd gan ein sefydliad a'n partneriaid, rydym wedi nodi pedwar maes blaenoriaeth y byddwn yn canolbwyntio arnynt dros y tair blynedd nesaf, gan weithio i hyrwyddo ac ymgorffori'r gwerthoedd sy'n sail i'r blaenoriaethau hynny yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Gan gydnabod bod y dirwedd gofal cymdeithasol yn newid o hyd, rydym wedi nodi gweithgareddau bras y byddwn yn ymgymryd â hwy yn ystod y 12 mis nesaf. Byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredu penodol o amgylch y gweithgareddau hynny ac yna adolygu ein sefyllfa ac ystyried gweithgareddau yn y dyfodol yn unol â'n blaenoriaethau, yn seiliedig ar y dirwedd adfer sy'n dod i'r amlwg.

**Blaenoriaeth 1: Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael cefnogaeth, adnoddau a gwerthfawrogiad priodol, ynghyd â'r sgiliau a'r gwydnwch i gyflawni'r gwasanaethau ymatebol o safon y mae eu hangen ar bobl.**

Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae ein gweithlu gofal cymdeithasol yn haeddu parch cydradd â chydweithwyr sy'n gweithio yn y GIG, drwy weithio gydag undebau a rhanddeiliaid eraill i fargeinio ar y cyd am dâl, telerau ac amodau gwell.
- Dylai atebion cenedlaethol sy'n cydnabod ac sy'n gwobrwyo gwerth a phroffesiynoldeb ein gweithlu gofal cymdeithasol, wrth leihau heriau cystadleuaeth, gael eu harchwilio.
- Mae'n rhaid i rôl y proffesiwn gweithiwr cymdeithasol yn y dyfodol gael ei datblygu, drwy gyfrannu at gynllunio llwybrau arweinyddiaeth a gyrfaoedd arloesol o safon sy'n cefnogi cynllunio olyniaeth.
- Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan ein gweithlu a'n systemau y cyfarpar i gyflenwi a chofnodi gwasanaethau gofal a chymorth yn iaith angen a dewisol pobl.
- Mae'n rhaid i sefydliadau partner ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i gyflawni gweledigaeth y strategaeth gweithlu integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae gennym atebolrwydd am sicrhau bod y pwyntiau gweithredu allweddol ar gyfer awdurdodau lleol o ran cyflawni canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil ar gyfer gofal cymdeithasol yn cael eu cymryd, a'n bod yn cymryd rôl arweiniol wrth wireddu'r weledigaeth i Gymru sy'n dathlu amrywiaeth ac sy'n dileu anghydraddoldeb.

Dyma fydd ein camau gweithredu ar gyfer 2021-22 ...

- **Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i gyflawni gweledigaeth y strategaeth gweithlu integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**
- **Byddwn yn parhau i geisio parch cydradd i'r gweithlu gofal cymdeithasol, yn unol â chydweithwyr sy'n gweithio yn y GIG, drwy weithio gyda'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i Gymru, undebau a rhanddeiliaid eraill i fargeinio ar y cyd am dâl, telerau ac amodau gwell.**

## Blaenoriaeth 2: Rydym am sicrhau bod pobl a chymunedau wrth wraidd y gwaith o ailfodelu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.

Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae ymgysylltu ag unigolion a chymunedau lleol yn hanfodol i ddeall eu hanghenion ac i sicrhau bod gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn adlewyrchu'r canlyniadau y mae pobl a chymunedau eu heisiau.
- Mae'n rhaid i ofalwyr yng Nghymru gael eu cefnogi i sicrhau bod eu hanghenion ariannol a llesiant, a'r bobl maent yn gofalu amdanynt, yn cael eu diwallu'n foddhaol.
- Mae'n rhaid i deuluoedd gael eu cefnogi i aros gyda'i gilydd, drwy ganolbwyntio ar ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfderau ac ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio yn ein cymunedau.
- Mae cydweithio â gwasanaethau iechyd cyhoeddus a gofal sylfaenol yn ein cymunedau'n hanfodol i ddiogelu iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gyda mynediad i wasanaethau llesiant arbenigol o safon yn cael ei roi ar yr adeg gywir.
- Mae'n rhaid i ymreolaeth comisiynwyr lleol i wneud penderfyniadau'n seiliedig ar anghenion eu cymunedau gael ei chadw, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod partneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol yn cefnogi'r gwaith hwn yn hytrach nag arafu cynnydd.
- Mae'n rhaid cael cysondeb dull ledled Cymru wrth ddefnyddio gofal iechyd parhaus a gofal parhaus i blant a phobl ifanc, gan ddiwallu anghenion unigolion yn llawn.
- Mae'n rhaid i'r sector addysg ddewisol yn y cartref gael ei reoleiddio'n briodol i sicrhau a diogelu hawliau plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yng Nghymru.

Dyma fydd ein camau gweithredu ar gyfer 2021-22 ...

- **Byddwn yn herio anghysondeb dulliau gweithredu ledled Cymru wrth ddefnyddio gofal iechyd parhaus a gofal parhaus i blant a phobl ifanc, gan sicrhau mai anghenion unigolion, nid sefydliadau, sydd o'r pwys mwyaf.**
- **Byddwn yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i basio deddfwriaeth briodol i sicrhau bod y sector addysg ddewisol yn y cartref yn cael ei reoleiddio'n briodol i sicrhau a diogelu hawliau plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yng Nghymru.**
- **Cefnogi ei gilydd i arwain a gwella'n barhaus fodelau gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar berthynas ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Rydym yn ceisio cyflenwi gwasanaethau sy'n adeiladu ar gryfderau a rennir ac sy'n atal methiant teuluoedd mewn modd diogel.**

### Blaenoriaeth 3: Rydym am sicrhau bod gan bobl ddewis a rheolaeth wirioneddol o ran sut y cyflenwir eu gofal.

Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae'n rhaid i'n gweithlu gael y sgiliau, amser a phrofiad angenrheidiol i sicrhau bod pob cynllun gofal a chymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Mae darpariaeth Gymraeg yn rhan hanfodol o gynnig y gwasanaeth, ac mae'n rhaid hyrwyddo hawliau pobl i dderbyn gofal a chymorth yn iaith yr angen.
- Dylai pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol deimlo'n hyderus wrth gael mynediad i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac wrth eu defnyddio, pan fo'u hangen arnynt, a dylent dderbyn cymorth o'r safon uchaf sy'n hygyrch, urddasol a phriodol yn ddiwylliannol ac nad yw'n gadael pobl dan anfantais.
- Dylai arloesedd digidol sydd wedi cefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau drwy gydol y pandemig COVID-19 barhau i gael ei ddatblygu lle y bo'n briodol. Dylai fod yn fuddiol i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys gofawyr di-dâl, a dylai sicrhau ei fod yn cynnwys darpariaeth Gymraeg yn llawn.
- Mae pobl o bob oedran yn ymwybodol o wasanaethau eirioli priodol pan fo'u hangen arnynt ac yn gallu cael mynediad iddynt.

Dyma fydd ein camau gweithredu ar gyfer 2021-22 ...

- **Byddwn yn parhau i ddatblygu elfen ddigidol sy'n cynnwys y Gymraeg yn llawn; sy'n rhoi mwy o annibyniaeth i bobl ac sy'n helpu i gynnal eu cysylltiad â rhwydweithiau sy'n darparu cymorth; ac sy'n gwella ymgysylltiad ar draws asiantaethau sy'n cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.**
- **Byddwn yn cyflawni gwaith drwy ein Rhaglen Cyflawni'r Agenda Drawsnewid i archwilio sut mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ymgysylltu â gwasanaethau gofal cymdeithasol.**
- **Byddwn yn arwain ar ddatblygu gwasanaethau sy'n golygu y gall anghenion gofal a chymorth pobl ifanc gael eu diwallu'n agosach at y lle maent yn byw.**



**Blaenoriaeth 4: Mae cynaliadwyedd yn ganolog i'r gwaith o ailgydbwysu gofal a chymorth, a bydd gan awdurdodau lleol hyder y gall gwasanaethau ddiwallu anghenion pobl ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.**

Beth mae hyn yn ei olygu?

- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fynd ati i gael eu hystyried fel darparwyr hyderus y mae modd ymddiried ynddynt o wasanaethau gofal a chymorth o safon, gan geisio cymorth gan Lywodraeth Cymru am fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol i gefnogi ail-gydbwysu modelau gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd sy'n caniatáu sefydlogrwydd.
- Mae'n rhaid i ni barhau i archwilio modelau gofal a chymorth arloesol sy'n defnyddio cryfderau'r holl rannau o'r sector gofal cymdeithasol ac iechyd i gyflenwi gwasanaethau o safon.
- Mae'n rhaid i drefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau i blant ac oedolion ystyried anghenion gwahanol a chymhleth unigolion a theuluoedd, gan flaenoriaethu canlyniadau ac ansawdd.
- Dylai sgysiau ehangach a mwy gonest ddigwydd ar ddiwygio'r farchnad a thryloywder cost, yn ogystal â gwella ansawdd gofal, fel bod y canlyniadau cywir yn cael eu cyflawni i ddinasyddion am y gost gywir i bwrs y wlad.

Dyma fydd ein camau gweithredu ar gyfer 2021-22 ...

- **Byddwn yn cynorthwyo gyda brocera tryloywder mwy mewn sgysiau ar ddiwygio'r farchnad a'r mater o dalu am ofal, gan gynnwys gwell dealltwriaeth o gost, yn ogystal â gwella ansawdd gofal, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl rydym yn eu cefnogi.**
- **Byddwn yn mynd ati i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu hystyried fel darparwyr hyderus y mae modd ymddiried ynddynt o wasanaethau gofal a chymorth, gan geisio cymorth gan Lywodraeth Cymru am fuddsoddiad cyfalaf a refeniw ychwanegol i gefnogi ailgydbwysu modelau gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd sy'n caniatáu sefydlogrwydd.**
- **Cyfrannu'n rhagweithiol at gyfleoedd lle gallwn ddylanwadu ar bolisi, arfer ac ariannu, er mwyn sicrhau'r llwyddiant mwyaf ar ein cyfer wrth arwain newid.**
- **Parhau i sicrhau'r budd mwyaf gan ein modelau gwaith cydweithredol ar gyfer mabwysiadu, maethu a chomisiynu.**
- **Byddwn yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i ddatrysiad ariannu tymor hir a chynaliadwy i dalu am gostau gofal cymdeithasol yn y dyfodol.**

## Datganiad Sefyllfa Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan (AWHOCS)

### Gorffennaf 2021

Mae'r plant sy'n byw yng Nghymru'n haeddu gwasanaethau rhagorol. Dylent ddisgwyl gwasanaethau sydd:

- Wedi'u gwreiddio yn hawliau plant ac yn gwybod gwerth clywed eu lleisiau
- Yn ymyrryd yn gynnar cyn bod problemau'n gwaethygu
- Yn adeiladu ar gryfderau teuluol ond hefyd yn ymatebol i anghenion rhieni
- Yn canolbwyntio ar ganlyniadau
- Yn gwella eu llesiant ac yn lleihau risgiau
- Yn deall amgylchiadau a lleoliadau personol unigryw
- Ar gael yn Gymraeg
- Wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau eraill, gan leihau nifer y gweithwyr proffesiynol y mae angen i blant ddod i'w hadnabod

Gyda'r cymorth gwleidyddol a strategol cywir, ynghyd â chyllid sefydlog a phriodol, mae modd cyflawni hyn.

Wrth i gymhlethdod ac amgylchiadau'r plant, y teuluoedd a'r cymunedau rydym yn eu cefnogi barhau i newid, mae ein dymuniad a'n hysgogiad i ddatblygu ein gwasanaethau mewn modd arloesol ledled Cymru yn bwysicach nag erioed.

Mae arloesedd yn ein gwaith yn allweddol, ac mae tystiolaeth dda ohono ledled Cymru:

- Dathlu cyflawniadau ein pobl ifanc sy'n derbyn gofal a'u cynnwys yn ein gwaith
- Cydnabod cyfraniad sylweddol gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, gofalwyr maeth a phobl sy'n mabwysiadu, a rhoi cymorth arbenigol iddynt
- Drwy wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar, chwilio'n ddiflino am ffyrdd o ddarparu cymorth gwell a chynharach
- Darparu cymorth cyfannol i blant anabl a'u teuluoedd
- Gwella ymatebion amlasiantaeth i blant sydd mewn perygl
- Darparu arweinyddiaeth mewn datblygiadau cyfraith gyhoeddus a'r ymyriadau dwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi teuluoedd, gan osgoi'r system derbyn gofal a chyfreithiol pan fo hynny'n ddiogel ac yn addas i anghenion y plant.
- Ein Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, sy'n gwella gwasanaethau drwy ddull cydweithredol a chyd-gynhyrchu unigryw
- Gwaith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, sydd wedi arwain at sefydlu Maethu Cymru
- Gwelliannau wrth gomisiynu yn sgil ein gwaith cydweithio gyda Chonsortium Comisiynu Plant Cymru (4C)
- Cydgynhyrchu gyda theuluoedd, er enghraifft drwy gyfarfodydd grwpiau teuluol ac eiriolaeth rhieni
- Gweithredu dulliau a lywir gan drawma ar draws gwasanaethau, ond yn arbennig yn ein darpariaeth i bobl ifanc y maent yn adnabyddus yn y gwasanaethau troseddwr ifanc

Yn yr holl feysydd hyn, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu cymorth o safon gyda phartneriaid o'r sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol.

### Ymateb i'r pandemig

Gwnaeth gwasanaethau plant ledled Cymru ymateb i'r pandemig COVID-19 drwy barhau i ddarparu gwasanaethau i deuluoedd agored i niwed gyda chreadigrwydd a phenderfyniad, wedi'u sbarduno gan ffocws ar ddyletswydd gyhoeddus a chadw plant yn ddiogel. Yn dilyn asesiad risg ac er gwaethaf y goblygiadau ar gyfer y gweithlu, mae llawer o staff wedi parhau â gwaith wyneb yn wyneb yn y gymuned.

Wrth i gyfyngiadau lacio a dod i ben yn y diwedd, rydym yn rhagweld cymhlethdod newidiol a galw cynyddol am wasanaethau wrth i adladd y pandemig ddod i'r amlwg. Rydym eisoes yn gweld y cynnydd cysylltiedig mewn tlodi, cam-drin domestig, diweithdra, unigedd, chwalfa teuluoedd a digartrefedd sydd wedi'u cysylltu â'r pandemig. Bydd y problemau hyn yn parhau i gael effaith ar iechyd meddwl a llesiant pobl, i'r graddau y bydd angen gwasanaethau ar fwy o rieni a phlant ar draws y sbectrwm angen, wedi'u cyflawni gan weithlu gwydn a chadarn.

Nid ydym eto'n deall yr effaith gudd ar blant a'u teuluoedd, ond rydym yn gwybod bod yr her ddigynsail wedi gadael y gweithlu'n flinedig dros ben. Felly, bydd angen i gynllunio ar gyfer adfer i'r gwasanaethau plant fod yn awgrymedig, yn amlwynebog ac wedi'i gyfeirio'n lleol ledled Cymru, wrth i'r problemau a heriau amrywiol ymddangos.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid i blant a phobl ifanc fod wrth wraidd cynlluniau llywodraeth leol a chenedlaethol i ailadeiladu cymunedau a chreu dyfodol gwell. Mae'n rhaid i ni gau'r bylchau mewn polisi rhwng gofal cymdeithasol, iechyd, addysg, a thaclo tlodi ac anghydraddoldeb. Bydd gwasanaethau tameidiog nad ydynt yn canolbwyntio ar bobl yn golygu y bydd mwy o deuluoedd yn ymgysylltu â gofal cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, lles, a gwasanaethau budd-daliadau, ac, yn rhy aml, y system cyfiawnder troseddol hefyd.

### Atal a chymorth i deuluoedd

Fel gweithwyr proffesiynol arweiniol mewn gwasanaethau plant ledled Cymru, rydym yn deall pam mae angen i waith ar achosion sylfaenol sy'n atal plant rhag mynd i'r system ofal fod yn flaenoriaeth genedlaethol i'r holl wasanaethau cyhoeddus.

Wrth fynd ymlaen, gyda'r buddsoddiad cywir, bydd ein haelodau'n parhau gyda'u hymgyrch ar sail tystiolaeth dda i wella ymyriadau a gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd ac sy'n atal chwalfa teuluoedd. Rydym yn gwybod bod ymyriadau therapiwtig â thystiolaeth sydd wedi'u targedu'n dda, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar berthnasau dibynadwy yn gweithio.

Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac adeiladu ar ein cynnydd wrth wella gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn barhaus. Mae angen i'r holl randdeiliaid gydnabod nad yw'n her i ofal cymdeithasol na llywodraeth leol yn unig ei datrys ar eu pen eu hunain. Problem ehangach, aml-ddimensiwn ydyw yr effeithir arni gan lawr o ffactorau, fel iechyd meddwl, tai, addysg, cyflogaeth, trosedd, tlodi, polisi a chyfraith. Nid ydym eto wedi gweld- lefel y datblygiad ac ymrwymiad ar draws y gwasanaethau cyhoeddus

sy'n adlewyrchu'r angen am ddull unedig, cyson. Felly, mae angen i bawb gamu i'r adwy a chwarae eu rhan lawn, gan gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau llesiant plant a theuluoedd y mae angen ein cymorth arnynt.

Mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant yng Nghymru wedi cyfrannu'n sylweddol at y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus a byddant yn gweithredu'r diwygiadau cyfraith gyhoeddus a fydd yn gweld hyd yn oed mwy o bwyslais ar gymorth sy'n ceisio atal yr angen am achosion gofal. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn golygu cynnydd yn y defnydd o adran 76, gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig a gorchmynion goruchwylio sy'n cefnogi ein gwaith sydd wedi'i anelu at hwyluso atebion a arweinir gan deuluoedd. Y peth pwysicaf yn hyn oll yw sicrhau y gall rhieni gael mynediad i'r gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, efallai y bydd eu hangen arnynt ar yr amser cywir.

## Diogelu

Cynnal trefniadau diogelu cadarn oedd prif ddyletswydd ein haelodau yn ystod y pandemig, ac ni fydd hyn yn newid. Mae hefyd yn hanfodol bwysig bod gan Gymru system ddiogelu sy'n seiliedig ar gymorth i deuluoedd fel bod modd cyd-gynhyrchu atebion a'u cynllunio gyda phobl ifanc a'u teuluoedd wrth eu gwraidd.

Busnes pawb yw diogelu a chefnogi llesiant plant a'u teuluoedd, ac mae'n gofyn am ymateb amlasiantaeth a chymunedol. Yn y flwyddyn i ddod, bydd asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd Diogelu'n ailgynllunio eu hymateb diogelu amlasiantaeth i'r nifer cynyddol o bobl ifanc sy'n agored i niwed gan ddylanwadau y tu allan i'r cartref, megis cam-fanteisio troseddol.

Ymateb i anghenion a heriau'r glasoed yw un o faterion mwy cymhleth y gymdeithas a gallwn ddod i'r casgliad nad yw'r system gyfredol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cyflawni'r canlyniadau gorau bob tro. Mae angen i ni ddeall yn well yr hyn sy'n gweithio i blant dan yr amgylchiadau hyn.

## Plant sy'n derbyn gofal

Dengys y data diweddaraf gan Lywodraeth Cymru (ar 31 Mawrth 2020) fod 16,580 o blant sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau plant ar draws ein 22 o awdurdodau lleol.<sup>[1]</sup>

O'r plant hynny sy'n derbyn cymorth, mae 7,180 yn derbyn gofal. O'r plant hynny, mae 17% yn byw gyda'u teuluoedd neu gydag aelodau eraill o'r teulu drwy drefniadau gofal gan berthynas, mae 70% yn byw gyda gofalwyr maeth, mae 8% yn byw mewn gofal preswyl, mae 3% o blant yn cael eu mabwysiadu, ac mae 2% o blant hyn yn byw'n annibynnol â chymorth.

Rydym yn hynod falch o'n plant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr ysbrydolgar, sydd wedi gwneud ymrwymiad emosïynol hyd yn oed yn fwy yn ystod y pandemig.

Ar hyn o bryd, mae Cymru'n wynebu argyfwng oherwydd diffyg lleoliadau addas sydd ar gael i bobl ifanc. Yn sgil hyn, gallai awdurdodau wynebu sefyllfa lle na allent ddiogelu plentyn yn y dyfodol agos. Mae effaith hyn ar blant a'u teuluoedd yn sylweddol.

Mae hyn er gwaethaf ymdrechion gan awdurdodau lleol i gynyddu cyflenwad lleoliadau addas. Ynghyd â phartneriaid a rhanddeiliaid, mae angen i ni barhau i oresgyn rhwystrau wrth ddarparu cartrefi maeth, cartrefi plant a llety â chymorth lleol sy'n ddigonol, addas, sefydlog a gwydn. Ynghyd â hyn, mae angen i ni barhau i recriwtio mabwysiadwyr sy'n gallu diwallu anghenion plant sydd â chynllun mabwysiadu.

Cafwyd newid sylweddol wrth ddarparu lleoliadau gofal preswyl ac o ran y rhai sy'n perchen arnynt, gydag awdurdodau lleol yn llai tebygol o berchen ar gartrefi plant a'u gweithredu. Mae'n glir nad yw model cyfredol y farchnad yn cyflawni digonolrwydd. Mae yna fwy sy'n gallu cael ei wneud i ail-gydbwysu ac ail-lunio'r farchnad lleoliadau gofal, fel bod economi gymysg o ddarpariaeth gwasanaethau a lleoliadau sydd wir yn diwallu anghenion gwirioneddol a chyfredol plant sy'n derbyn gofal heddiw.

Bydd gofyniad am fuddsoddiad er mwyn i awdurdodau lleol brynu, gwella neu ailfodelu asedau cam wrth gam a bydd angen i Lywodraeth Cymru feddwl am y mecanweithiau o safbwynt adnoddau i hwyluso hyn. Yn ogystal â buddsoddiad cyfalaf, mae'n rhaid i ni ystyried na all y darpariaethau hyn ffynnu heb dimau staff medrus a'r gwasanaethau llesiant emosiynol ac iechyd meddwl arbenigol cofleidiol y mae ar blant sydd wedi'u trawmateiddio eu hangen. Felly, mae buddsoddiad refeniw yr un mor hanfodol os ydym am sicrhau y bydd hyn yn digwydd.

Mae lansio Maethu Cymru'n dangos anterth cydweithio ledled Cymru o ran gwasanaethau maethu. Bydd hyn yn cefnogi gwasanaethau maethu awdurdodau lleol i recriwtio a chadw gofalwyr maeth a gwireddu'r uchelgais gyffredin o leoli mwy o blant sy'n cael eu maethu mewn lleoliadau gyda'r awdurdod lleol yn eu hardaloedd eu hunain. Bydd Maethu Cymru'n codi proffil maethu drwy'r awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynyddu nifer y gofalwyr a theluoedd maeth sydd ar gael i'r nifer cynyddol o blant y mae eu hangen arnynt, ac yn darparu gwasanaeth mwy cyson o safon i blant a theluoedd maeth fel ei gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith hwn; mae ei hymrwymiad parhaus, ynghyd â'n gwasanaethau ledled Cymru, yn angenrheidiol i gyflawni'r newid uchelgeisiol y mae hyn yn ei gynrychioli.

Oherwydd effaith anghyfartal y pandemig, mae angen mwy o ffocws bellach ar yr uchelgais strategol a'r cymorth a roddir i iechyd meddwl plant. Croesewir mentrau'r Fframwaith Nyth<sup>[iii]</sup> a'r Dull Ysgol Gyfan<sup>[iiii]</sup> yn fawr iawn. Er mawr tristwch, ac er gwaethaf yr argymhellion clir iawn yn 'Dim Drws Anghywir',<sup>[iv]</sup> mae yna ormod o enghreifftiau o hyd o blant ag anghenion cymhleth yn methu â chael mynediad i'r gwasanaethau, llety, triniaeth a chymorth integredig arbenigol y mae eu hangen arnynt.

Mae'r bobl ifanc hyn yn wynebu byd ansicr ar ôl y pandemig, a bydd angen i ni ddefnyddio potensial llawn ein creadigrwydd a'n galluedd magu plant corfforaethol os ydym am leihau effaith hyn, drwy ddarparu gwasanaethau cymorth sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r ffocws ar ddatblygu cymorth mabwysiadu cadarn i'r plant hynny na allant ddychwelyd i'w teuluoedd genedigol neu eu cymunedau.

Rydym yn credu y dylem fod yn uchelgeisiol wrth fynd i'r afael â phob un o'r materion hyn ac yn croesawu cymorth ac ymgysylltiad rhanddeiliaid allweddol eraill yn y gwaith hwn.

## Y gweithlu

Mae llesiant y gweithlu'n ffactor hanfodol i Lywodraeth Cymru ac arweinwyr y sector fynd i'r afael ag ef ar frys. Wrth i'r pandemig leddfu, rydym yn symud yn gyflym i feddwl am les staff a'r cydbwysedd rhwng gweithio gartref ac yn y swyddfa. Mae angen i ni sicrhau bod gan y gweithlu y systemau a mecanweithiau cymorth cywir i ffynnu a bod lleoliadau deniadol i gadw a meithrin gweithlu iach ac effeithiol.

Gwnaeth ymgysylltu rhithwir a'r defnydd ehangach o dechnoleg ddigidol mewn arfer proffesiynol ddatblygu'n sylweddol yn ystod y pandemig. Wrth i ni symud ymlaen, mae'r dulliau gweddol newydd hyn, sy'n cyd-fynd ag arfer wyneb yn wyneb, bellach yn cael eu harchwilio a'u profi'n gadarn. Bydd hyn yn sicrhau dichonolrwydd tymor hir cyfathrebu a thechnoleg rithwir o fewn arfer gwaith cymdeithasol ledled Cymru.

Rydym yn gwybod bod diffyg gweithwyr cymdeithasol cymwys a phrofiadol mewn gwasanaethau plant.<sup>[v]</sup> Bydd ailgydbwysu'r gweithlu fel bod capasiti'n adlewyrchu'r galw yn cymryd amser.

Rydym yn croesawu'r gwaith y mare Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud i gynyddu comisiynau hyfforddi myfyrwyr a gwella bwrsariaethau a chynyddu mynediad iddynt. Mae hefyd yn gadarnhaol nodi creadigaeth llwybrau datblygiad proffesiynol ôl-raddedig wedi'u cysylltu â gwella cyflog a datblygiad gyrfa. Fodd bynnag, mae angen i'r gwaith hwn gael ei gyflymu, oherwydd bod cyflenwad digonol ar bob lefel ymarfer, gan gynnwys gallu ym maes arweinyddiaeth, yn rhwystr amlwg iawn.

### Adnoddau

Ni allwn ddianc rhag y ffaith bod yr aflonyddwch i fywydau addysgol, cymdeithasol a theuluol plant wedi golygu bod ein pobl ifanc wedi talu pris anghymesur am gadw ein poblogaeth oedolion yn ddiogel. Mae'n hanfodol bod digon o adnoddau cynaliadwy ar waith i sicrhau bod capasiti'n gallu bodloni'r galw.

Mae'n hynod bwysig bod Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi awdurdodau lleol yn eu gwaith wrth iddynt geisio ymyrryd â theuluoedd yn gynt ac atal problemau rhag gwaethygu. Mae nifer o'r gwasanaethau y mae teuluoedd agored i niwed yn dibynnu arnynt wedi'u hariannu gan arian tymor byr, cyfyngedig i amser, ynghyd â phrosesau busnes sy'n cynyddu llwyth gwaith yr awdurdodau. Mae'n rhaid i'r llywodraeth sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, cyffredinol a chymorth cynnar, fel bod plant a theuluoedd yn derbyn cymorth ymarferol, emosiynol, addysgol ac iechyd meddwl cyn gynted ag y bo'i angen arnynt.

Wrth i'r system gofal cymdeithasol gyfan geisio adfer ar ôl y pandemig, mae yna angen go iawn i gael trafodaeth agored, onest a thryloyw rhwng partneriaid yn y system am yr adnoddau ar gyfer gofal. Mae costau'n cynyddu, yn enwedig ffioedd lleoli, yng nghyd-destun llai o arian gan lywodraeth leol a gweithlu sydd wedi'i orymestyn.

### Casgliad

Mae gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru, wedi'u cefnogi gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru weledigaeth glir o ran ceisio gwasanaethau rhagorol i blant. Mae'r hyn sy'n digwydd nesaf ar y llwybr i droi hyn yn gyflawniad cenedlaethol cyson yn nwylo arweinwyr ar draws y rhwydwaith proffesiynol a gwleidyddol yng Nghymru.

Ni allwn orffwys ar ein rhwyfau, ac ni allwn esgeuluso arloesedd a newid. Mae yna swm sylweddol o ddysgu wedi digwydd dros yr 16 mis diwethaf ac mae'n rhaid i hwnnw gael ei gydweddu a'i werthuso. Mae'n rhaid i ni ystyried diogelu'r elfennau a wnaeth weithio'n dda, a bod yn agored am yr heriau yn y system a sut orau i fynd i'r afael â hwy ar y cyd.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, bydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant, wedi'u cefnogi gan ADSS Cymru, yn canolbwyntio eu hymdrechion arweinyddiaeth ar y cyd ar y canlynol:

- Cefnogi ei gilydd i arwain a gwella'n barhaus fodelau gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar berthynas ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Rydym yn ceisio cyflenwi gwasanaethau sy'n adeiladu ar gryfderau a rennir ac sy'n atal chwalfa teuluoedd mewn modd diogel
- Arwain ar ddatblygu gwasanaethau sy'n golygu y gall anghenion gofal a chymorth pobl ifanc gael eu diwallu'n agosach at gartref
- Parhau i fwyafu manteision ein modelau cydweithio ar gyfer mabwysiadu, maethu a chomisiynu

- Cyfrannu'n rhagweithiol at gyfleoedd lle gallwn ddylanwadu ar bolisi, arfer ac ariannu, i fwyafu ein llwyddiant wrth arwain newid

[ii] StatsCymru, *Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl awdurdod lleol a statws derbyn gofal*, 24 Mawrth 2021.

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport-by-localauthority-lookedafterstatus>

[Fel y cyrchwyd ar 6 Gorffennaf 2021.]

[iii] Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru, *Y Fframwaith Nyth*, Mai 2021.

<https://cydweithrediad.gig.cymru/rhwydweithiau/rhwydwaith-iechyd-meddwl-cymru/law-yn-llaw-dros-blant-a-phobl-ifanc-2/y-fframwaith-nyth/>

[Fel y cyrchwyd ar 6 Gorffennaf 2021.]

[iiii] Llywodraeth Cymru, *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol*, Mawrth 2021.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-a-meddyliol.pdf>

[Fel y cyrchwyd ar 6 Gorffennaf 2021.]

[v] Comisiynydd Plant Cymru, *Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant*, Mehefin 2020.

<https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/dim-drws-anghywir-dod-a-gwasanaethau-ynghyd-i-ddiwallu-anghenion-plant/>

[Fel y cyrchwyd ar 6 Gorffennaf 2021.]

[vi] <[https://ukc-word-edit.officeapps.live.com/we/wordeditorframe.aspx?ui=en-gb&rs=en-gb&wopisrc=https%3A%2F%2Fpracticesolutions786.sharepoint.com%2Fsites%2FADSSC\\_Team%2F\\_vti\\_bin%2Fwopi.ashx%2Ffiles%2Fdc13b1c22775445b8a1b3b4c3e1bc804&wdenable](https://ukc-word-edit.officeapps.live.com/we/wordeditorframe.aspx?ui=en-gb&rs=en-gb&wopisrc=https%3A%2F%2Fpracticesolutions786.sharepoint.com%2Fsites%2FADSSC_Team%2F_vti_bin%2Fwopi.ashx%2Ffiles%2Fdc13b1c22775445b8a1b3b4c3e1bc804&wdenable)

[roaming=1&mssc=1&hid=-](https://ukc-word-edit.officeapps.live.com/we/wordeditorframe.aspx?ui=en-gb&rs=en-gb&wopisrc=https%3A%2F%2Fpracticesolutions786.sharepoint.com%2Fsites%2FADSSC_Team%2F_vti_bin%2Fwopi.ashx%2Ffiles%2Fdc13b1c22775445b8a1b3b4c3e1bc804&wdenable)

[2389&uiembed=1&uih=teams&hhdr=1&dchat=1&sc=%7B%22pmo%22%3A%22https%3A%2F%2Fteams.microsoft.com%22%2C%22pshare%22%3Atrue%2C%22surl%22%3A%22%22%2C%22curl%22%3A%22%22%2C%22vurl%22%3A%22%22%2C%22eurl%22%3A%22https%3A%2F%2Fteams.microsoft.com%2Ffiles%2Fapps%2Fcom.microsoft.teams.files%2Ffiles%2F3031065694%2Fopen%3Fagent%3Dpostmessage%26objectUrl%3Dhttps%253A%252F%252Fpracticesolutions786.sharepoint.com%252Fsites%252FADSSC\\_Team%252Fshared%2520Documents%252FGeneral%252FPriorities%2520and%2520Positions%252FADSSC%2520Strategic%2520Documents%2520FINAL%2520DRAFT%2520%255B24%2520August%2525D.docx%26fileid%3DDC13B1C2-2775-445B-8A1B-3B4C3E1BC804%26fileType%3Ddocx%26messageid%3D1630507576155%26ctx%3Dchiclet%26scenarioId%3D2389%26locale%3Den-gb%26theme%3Ddefault%26version%3D21052507800%26setting%3Dring.id%3Ageneral%26setting%3DcreatedTime%3A1631282082854%22%27D&wdorigin=TEAMS-ELECTRON.teams.chiclet&wdhostclicktime=1631282082783&jsapi=1&jsapiver=v1&newsession=1&corrid=d9684271-708b-4d26-b7aa-fa3e5e928763&usid=d9684271-708b-4d26-b7aa-fa3e5e928763&sftc=1&sams=1&acclloop=1&sdr=6&scnd=1&hbvc=1&htv=1&hodflp=1&instantedit=1&wopicomplete=1&wdredirectionreason=Unified\\_SingleFlush&rct=Medium&ctp=L](https://ukc-word-edit.officeapps.live.com/we/wordeditorframe.aspx?ui=en-gb&rs=en-gb&wopisrc=https%3A%2F%2Fpracticesolutions786.sharepoint.com%2Fsites%2FADSSC_Team%2F_vti_bin%2Fwopi.ashx%2Ffiles%2Fdc13b1c22775445b8a1b3b4c3e1bc804&wdenable)

[eastProtected](https://www.basw.co.uk/resources/manifesto-gwaith-cymdeithasol-etholiad-y-senedd-2021) Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) Cymru, *Maniffesto Gwaith Cymdeithasol Etholiad y Senedd 2021*, Tachwedd 2020. <https://www.basw.co.uk/resources/manifesto-gwaith-cymdeithasol-etholiad-y-senedd-2021> <[https://www.basw.co.uk/system/files/resources/181170\\_basw\\_cymru\\_social\\_work\\_manifesto.pdf](https://www.basw.co.uk/system/files/resources/181170_basw_cymru_social_work_manifesto.pdf)>

[Fel y cyrchwyd ar 6 Gorffennaf 2021.]



## Datganiad Sefyllfa Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Cymru Gyfan (AWASH)

### Gorffennaf 2021

Mae'r pandemig wedi bod yn her ddigyffelyb i gymdeithas Cymru gyfan, ond i neb yn fwy na'r sector gofal cymdeithasol i oedolion. Mae comisiynwyr gwasanaethau statudol a'u partneriaid darparu wedi cael eu gwthio i'r eithafion wrth geisio ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus eithriadol a chyflawni gwasanaethau ynddo.

Mae ein haelodau wedi bod yn y rheng flaen ymateb brys ein cenedl. Eto, er gwaethaf y pwysau didostur, mae gweithlu cyfan gofal cymdeithasol i oedolion wedi bodloni'r her mewn ffyrdd a ddylai gael eu cydnabod a'u dathlu.

Er ein bod yn parhau i fodloni her eithriadol y pandemig COVID-19 mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau statudol, partneriaid a sefydliadau trydydd sector eraill, mae'n bwysig myfyrio ar y cyfleoedd diriaethol y mae'r pandemig wedi'u hachosi a'u gwerthuso. Mae ymateb yn gyflym i'r amgylchiadau newidiol a berwyd gan y feirws wedi'n galluogi i gyflawni modelau newydd ac arloesol o ofal sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae hefyd wedi gwella ymgysylltiad partneriaeth a gwaith integredig drwy ddiddymu rhwystrau systemig a sefydliadol. Mae'r sector wedi arddangos y gall fod yn gyflym, yn hyblyg ac yn addasol mewn amgylchiadau anodd, gan reoli risg mewn ffordd gadarnhaol i ail-lunio a newid.

Mewn cymdeithas ar ôl COVID-19, mae gennym oll gyfle sylweddol - llywodraeth leol a chenedlaethol, ynghyd â'r GIG, maes iechyd y cyhoedd, darparwyr gofal a'r rheoleiddiwr - i ail-raddnodi ac adnewyddu'r sector ond i gadw at yr amcanion a nodir yn Neddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o hyd. Y mae am bobl a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw, yn hytrach na sefydliadau, prosesau a systemau. I gyflawni gwasanaethau trawsffurfiol gwirioneddol i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, mae angen i bob partner barhau ar hyd y llwybr newid, fel bod dysgu a phrofiadau'r pandemig yn cael eu cadw a'u hymgorffori. Bydd cefnogi arweinyddiaeth ar bob lefel fel bod penderfyniadau hyderus ac ymddiriedus yn cael eu gwneud yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir yn hanfodol.

### Ailadeiladu ac adnewyddu

Mae llawer o'r heriau rydym yn eu hwynebu bellach ym maes gofal cymdeithasol i oedolion wedi bod yn bresennol ers tro byd. Nid ydynt yn rhai newydd. Rydym yn derbyn bod y newidiadau ym mhroffil ein poblogaeth - gyda nifer cynyddol o bobl hŷn yn byw'n hwy ac yn meddu ar anghenion gwahanol, yr heriau arian cyhoeddus a phwysau cyni, bregusrwydd a natur y farchnad ofal, a chymhlethdod comisiynu - oll yn bryderon dilys y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae rhai o'r agweddau hyn wedi cael eu gwaethygu gan y pandemig COVID-19, yn enwedig y cymhlethdod sy'n dod ag ailfodelu gwasanaethau ac ail-alluogi oedolion hŷn sydd wedi dal a dioddef yr agweddau mwyaf difrifol ar y feirws, yn ogystal â'r effaith ar y farchnad darparwyr a'r ôl sydd wedi cael ei adael ar lesiant y gweithlu. Nid ydym am ddychwelyd i'r ffordd yr oedd pethau oherwydd bod heriau dal yn bodoli ac mae angen eu goresgyn. Mae angen cyfnod o adnewyddu arnom. Amser i ailadeiladu. Rydym am weithio gyda'r llywodraeth newydd yng Nghymru newydd i arwain y broses honno.

Yr hyn y mae'r pandemig hwn wedi'i ddangos yw bod gofal cymdeithasol yn haeddu parch cydradd â'r GIG. Mae angen i hyn gael ei gefnogi gan setliad ariannu tymor hir a chynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol,



y mae llywodraeth leol wedi bod yn gofyn amdano ers amser maith. Yr unig ffordd y gallwn gyflymu arloesedd mewn gwasanaethau ataliol a chynnal modelau newydd o iechyd a gofal yw os bydd llywodraeth leol yn derbyn yr adnoddau digonol i ymgymryd â graddfa lawn ei gwaith heb gael ei rhwystro. Mae bregusrwydd y sector iechyd aciwt wedi cael ei ddatgelu hyd yn oed yn fwy gan y pandemig. Felly, mae'n rhaid i ni gyflymu bwriad y polisi yn *Cymru Iachach*, sy'n canolbwyntio ar ailddosbarthu adnoddau o'r model meddygol o drin salwch i'r model cymdeithasol o atal salwch.

Rydym yn gwybod bod penderfynyddion ehangach iechyd yn bodoli y tu hwnt i'r GIG. Mae addysg, tai a datblygiad economaidd, ynghyd â'n hasedau cymunedol - ein seilwaith cyhoeddus - yn atal pobl rhag dod yn sâl, rhag wynebu amddifadedd materol, a rhag dod yn anghysylltiedig yn gymdeithasol. Maent yn erydu anghydraddoldeb ac yn hyrwyddo gwydnwch a chydlyniant cymunedol. Dim ond drwy ganolbwyntio ar y penderfynyddion cymdeithasol hyn, ac ar ganlyniadau llesiant o ansawdd, y byddwn yn gwella iechyd a chyfleoedd bywyd ein dinasyddion a'n cymunedau. Hefyd, dim ond drwy gynyddu gwaith integredig ar y lefel leol rhwng gwasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol a gwasanaethau gofal cymdeithasol y gallwn ymyrryd ar y pwynt cynharaf o ran angen a darparu ymateb cyfannol i sicrhau bod pobl yn iach yn feddyliol ac yn gorfforol.

Mae'n rhaid i'r newid hwn mewn diwylliant a systemau o system gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar ysbytai i system iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i gwreiddio yn y gymuned, yn ei hystyr ehangaf, ddigwydd ar unwaith. Mae'n rhaid cael pwyslais hyd yn oed yn fwy ar ataliaeth i wella iechyd a llesiant a lleihau baich y gost ar wasanaethau cyhoeddus yn y tymor hwy. Mae hyn yn dechrau drwy alluogi teuluoedd i gefnogi eu hunain trwy adeiladu ar gryfder yn hytrach na gwendid. Yna rydym yn adeiladu ar hyn drwy wella a chynnal gwydnwch cymunedol ac asedau cymunedol, sef gwireddu'r agenda leoliaeth. Dyma ble mae llywodraeth leol yn dangos arweinyddiaeth ac yn arddangos ei gwerth ehangaf os caiff yr hyblygrwydd ac ymreolaeth leol i wneud hynny.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn a bod yn hyderus ac yn uchelgeisiol gyda chmau gweithredu ac adnoddau nid yn unig i adfer yr hyn a oedd eisoes gennym ond i ailadeiladu ac adnewyddu.

## Y gweithlu

Mae'r pandemig wedi rhoi sbotolau ar y rôl hynod werthfawr y mae gofal cymdeithasol yn ei chwarae. Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion wedi bod ar y rheng flaen drwy gydol yr argyfwng hwn, gan beryglu eu bywydau a gwneud gwaith gwych mewn amgylchiadau hynod heriol i ddiogelu'r rheiny y maent yn gofalu amdanynt.

Mae ADSS Cymru'n croesawu'r gydnabyddiaeth y mae llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i'r sector, sydd wedi sicrhau bod y gweithlu cyfan wedi bod ar flaen meddwl y cyhoedd. Fodd bynnag, er bod cyflwyno'r cerdyn gweithiwr gofal cymdeithasol a thaliadau bonws wedi cael eu gwerthfawrogi, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y sector gofal yn broffesiwn cyffrous a bywiog o ddewis os ydym am ddenu a chadw'r gofalyr gorau.

Er bod arweinyddiaeth, diwylliant a sail gwerthoedd yn ddeniadol ac yn bwysig, mae'n hanfodol bod gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys y rheiny sy'n gweithio mewn cartrefi gofal, yn cael cynnig yr un cyfleoedd ac amodau â gweithwyr y GIG. Mae angen buddsoddiad tymor hir arnom yn y gweithlu gofal a chydraddoldeb ar draws y system – o fyfyrwyr i arweinwyr – sy'n barhaol, yn gynaliadwy, ac y gall y cyhoedd ei gydnabod yn hawdd. Mae angen cydraddoldeb arnom hefyd rhwng iechyd a llywodraeth lleol yn ehangach. Nid yw gofal cymdeithasol yn gweithio ar ei ben ei hun i ffwrdd o wasanaethau llywodraeth leol eraill; rydym yn gweithio gyda'n gilydd ac yn dibynnu ar ein gilydd. Mae angen i swm a graddfa'r gwaith, ynghyd â'r cyfrifoldebau ac atebolrwydd, gael eu cydnabod yn briodol. Byddwn yn arwain ar hyn gyda

phartneriaid allweddol eraill ac rydym yn barod i weithio gydag undebau i fargeinio ar y cyd am delerau gwell os oes angen i ni wneud hynny.

Mae angen cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith ddinistriol ar bobl sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol, yn enwedig y rheiny sy'n gweithio mewn gofal preswyl. Wrth ddiwygio'r ystadegau ar gyfer oedran a rhyw, mae gan weithwyr gofal cymdeithasol ddwywaith y gyfradd farwolaethau o ganlyniad i COVID-19 o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Mae'r pwysau dwys a pharhaus ar y gweithlu cyfan - gan gynnwys arweinwyr a rheolwyr - yn bryder, yn arbennig yr effaith tymor hwy ar iechyd meddwl a llesiant. Mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod bod y gweithlu fel grŵp yn heneiddio hefyd. Mae gan ADSS Cymru bryderon gwirioneddol am flinder yn y gweithlu a'i effaith ar gadw staff dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, oherwydd bod y pandemig wedi gadael olion dwfn ar sawl gweithiwr hŷn, ac, i rai, gallai hyn fod yn ormod iddynt. Er nad ydym eto'n gwybod graddfa hyn, gallai colli gwybodaeth, profiad ac arbenigedd o bosib o'r sector fod yn sylweddol ac mae'n rhaid i ni baratoi am hynny.

Yn ddealladwy, mae mynd i'r afael ag adfer staff a dod o hyd i'r amser i baratoi am unrhyw donnau eraill o'r pandemig yn y dyfodol yn mynd i fod yn hanfodol yn y tymor byr. Felly, mae'n hanfodol bwysig bod yr elfennau allweddol o'r strategaeth gweithlu integredig genedlaethol sy'n canolbwyntio ar lesiant y gweithlu yn cael eu cyflwyno'n gyflym, fel bod y gweithlu'n cael ei gefnogi'n gyfannol i adfer dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

### Gweithio mewn partneriaeth

Mewn sawl achos, mae ymateb i'r pandemig wedi cryfhau cydweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gyda mecanweithiau gwneud penderfyniadau mwy hyblyg ac ymatebol a chynlluniau gweithredu'n cael eu galluogi. Roedd yr ymdeimlad o frys a greodd gan yr argyfwng yn golygu bod yr holl bartneriaid yn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth a rennir a diben cyffredin, heb y ffocws ar bwy sy'n talu. Roedd hyn yn arwain at benderfyniadau, weithiau rhai anodd a chymhleth, yn cael eu gwneud yn gynt. Yn ogystal, mae perthnasoedd â darparwyr wedi cael eu cryfhau gan y ddeialog barhaus ac amser real gydag awdurdodau lleol ac eraill, gan eu cefnogi wrth ddarparu cyngor a diweddariadau, yn ogystal â dysgu a rennir. Mae'n rhaid i ni barhau gyda'r gwaith hwn ac adeiladu arno.

Gall gwaith partneriaeth ar ei orau - pan gaiff perthnasoedd dibynadwy eu creu a'u meithrin - arwain at ganlyniadau gwell, gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon, a chreadigrwydd. Rydym am archwilio a hwylyso cyfleoedd eraill lle gall hyn barhau o ran gwneud penderfyniadau integredig, lleihau dyblygu, a rhannu diwyllianau arweinyddiaeth a'r gweithlu, nid yn unig gyda chydweithwyr iechyd, ond hefyd gyda darparwyr ac, yn hanfodol, y trydydd sector. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael dadl fwy sylfaenol rhwngartneriaid a'r cyhoedd am ddyfodol gofal cymdeithasol. Beth yw dyheadau'r genedl hon ar gyfer gofal cymdeithasol? Beth yw cyrchfan terfynol y daith integreiddio hon a beth mae'n ei olygu o ran cyfrifoldebau, atebolrwydd ac ansawdd y gwasanaeth? Nid yw trafodaethau hirfaith sy'n defnyddio llawer o adnoddau am faterion megis gofal iechyd parhaus a'r defnydd o daliadau Uniongyrchol bellach yn gynaliadwy nac yn bosib. Maent yn arafu cynnydd, yn profi partneriaethau, ac yn tarseilio perthnasoedd. Mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy ar frys oherwydd nid ydynt yn rhoi'r unigolyn sy'n cael mynediad i wasanaethau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

### Arloesedd a gwelliannau i'r sector

Fel arweinwyr gofal cymdeithasol, rydym yn croesawu arloesedd a gwelliant yn y sector. Hyd yn oed ar anterth ceisio rheoli argyfwng iechyd y cyhoedd, mae awdurdodau lleol wedi achub ar y cyfleoedd sydd ar

gael iddynt oherwydd y sefyllfa i arloesi, ail-gyflunio a datblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion dinasyddion. Mae bod â'r gallu i barhau'n hyblyg ac i addasu i newid wedi bod yn hanfodol.

Cafwyd newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae pobl wedi gweithio mewn ymateb i'r pandemig, gyda'r effaith fwyaf ar y defnydd mwy a gwell o blatfformau digidol a thechnoleg. Mae cymaint o'r hyn rydym wedi'i gymryd yn ganiataol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi trawsnewid. Mae llawer o wasanaethau a oedd yn rhai wyneb yn wyneb wedi symud ar-lein, mae platfformau digidol wedi'n galluogi i gyfathrebu'n ehangach ac yn fwy mynych, ac mae apiau wedi galluogi'n dinasyddion i gael mynediad i rai cymorth o'u cartrefi eu hunain.

Wrth gwrs, mae'n hanfodol ein bod yn gwerthuso'r newidiadau a'r dysgu sydd wedi digwydd i arfer gwaith a, lle y bo'n bosib, defnyddio'r pŵer y mae technoleg ac arloesedd digidol yn ei gynnig i ni drwy arweinyddiaeth a datblygiad gweithlu effeithiol. Fodd bynnag, ni ddylen ni anghofio mai canolbwynt gofal cymdeithasol, wrth ei wraidd, yw pobl, sef cysylltiad dynol, tosturi ac empathi. Mae'n golygu meithrin a chynnal perthnasoedd dibynadwy ac nid oes modd gwneud hyn i gyd ar-lein. Yn debyg, i'r gweithlu ei hun, yn arbennig o ran cymorth cymheiriaid i gymheiriaid, rhannu profiadau a chynnal morâl y gweithlu, dim ond hyn a hyn y gall technoleg ddigidol ei wneud, ac ni all peth gwaith gael ei wneud heb ryngweithio uniongyrchol.

Yr hyn sydd wedi ymddangos i raddau yn ystod y pandemig yw newid yn lefel y cymorth y mae ei hangen ar rai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Cafwyd llawer o achosion o ddinasyddion sydd wedi cael mynediad i wasanaethau'n flaenorol yn dod o hyd i ffyrdd eraill o ymdopi heb y gwasanaeth llawn yr oeddent yn ei dderbyn yn flaenorol. Nid yw'n glir pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar ddisgwyliadau dinasyddion a chyflenwi gwasanaethau yn y tymor hwy. P'un ai yw hyn oherwydd bod teulu/ffrindiau wedi gallu llenwi unrhyw fylchau mewn gofal a chymorth tra bod eu patrymau gwaith wedi newid yn rhywbeth na fydd yn dod yn amlwg yn llawn nes bod y cynllun ffyrlo yn dod i ben. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd gofyniad i ddarparu cymorth ychwanegol i ofalwyr anffurfiol, di-dâl a fyddai wedi profi pwysau sylweddol yn ystod y cyfnodau cyfyngiadau symud amrywiol. Rydym hefyd yn gwybod bod angen ailwerthuso hyfywedd gwasanaethau gofal dydd a ddarperir yn y gymuned. Mae'r gwasanaethau hyn, ynghyd â gofal seibiant, yn rhyddhau pwysau ar deuluoedd i'w galluogi i ofalu am eu hunain. Fodd bynnag, mae datblygu'r math cywir o wasanaeth lleol a chael y math cywir o welyau seibiant, gan gynnwys gofal preswyl dwys ac i oedolion â dementia, yn mynd i fod yn hanfodol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i ddeall y goblygiadau o ran costau cyfalaf a refeniw o gynyddu capasiti a gweithredu modelau gofal newydd. Mae'n rhaid i ni ymgorffori'r newid hwn mewn ffordd feddylgar ac ar y cyd.

### Cost gofal a bregusrwydd y farchnad

Mae'n rhaid i'r agenda parch cydradd â'r GIG fynd y tu hwnt i dâl ac amodau cyfartal ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae angen setliad ariannu gwirioneddol, tymor hir a chynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol, y mae llywodraeth leol wedi bod yn galw amdano yn hir cyn yr argyfwng COVID-19 cyfredol. Mae'n rhaid i'r diffygion ariannol mewn perthynas â phwysau cost a gwahaniaethu mewn cost a oedd yn bodoli cyn y pandemig gael eu cydnabod a'u deall er mwyn rhoi'r cyfnod cyfredol yn ei gyd-destun. Gellid dadlau'n hawdd nad yw modelau cyfredol y farchnad ynghyd â'r amgylchedd ariannu sydd gennym ar gyfer gofal cymdeithasol yn gweithio.

Rydym yn credu bod y pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa ariannol fregus y mae llawer o ddarparwyr gofal ynddynt ac yn bwrw amheuaeth ar hyfywedd tymor hir nifer o ddarparwyr gofal yn y farchnad, yn enwedig yn y farchnad gofal preswyl, yr effeithiwyd arni'n anghyfartal gan y pandemig. Mae llawer o ddarparwyr gofal preswyl yn parhau i fod dan bwysau ariannol, sy'n cael eu gwaethygu gan lefelau defnydd sy'n gostwng,

naill ai oherwydd gormodedd o farwolaethau neu oherwydd cyfyngiadau ymarferol ar dderbyniadau newydd, yn ogystal â llai o alw am ofal preswyl.

Mae arian tymor byr ar gael i wneud yn iawn am gost diffyg defnydd drwy Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru. Mae hwn wedi bod yn fecanwaith cymorth ariannol sylweddol ac rydym yn croesawu cymorth parhaus y llywodraeth yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, er ein bod yn deall bod yn rhaid cyfyngu ar y cymorth hwn yn raddol dros y flwyddyn, rydym am weithio gyda'r llywodraeth a darparwyr gofal i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn deg ac ar yr adeg gywir. Os bydd penderfyniadau'n cael eu rhuthro neu'n cael eu gwneud yn fympwyol, gallai gyflymu tynnu allan o'r farchnad yn y sector a gweld cartrefi gofal yn cael eu dychwelyd i'r sector cyhoeddus ar adeg pan fo gan awdurdodau lleol a darparwyr eraill allu cyfyngedig neu ddim gallu i ymyrryd. Mae hyn yn golygu y byddai capasiti'n cael ei golli o'r sector yn gyfan gwbl a gallai gyfyngu ar lefel y dewis wrth archwilio darpariaeth tymor hwy. Hefyd, byddai'n cael effaith sylweddol ar y gallu i gefnogi'r broses o ryddhau o'r ysbyty, a allai olygu hyd yn oed mwy o bwysau ar y sector iechyd aciwt, yn ogystal â gofal cartref.

Rydym yn credu bod angen sgwrs ehangach a mwy gonest ar ddiwygio'r farchnad, tryloywder cost a gwella ansawdd sy'n mynd y tu hwnt i ddatblygu fframweithiau comisiynu cenedlaethol. Mae'n ddiwygiad y bydd yn rhaid iddo warantu lefel lawer mwy o sicrwydd i ddarparwyr gofal ynghylch incwm ond hefyd gyda disgwyliadau uwch am fuddsoddiad pellach mewn pobl ac asedau i wella a chynnal darpariaeth o safon. Fodd bynnag, mae angen sylweddoli bod ailgydbwysu'r farchnad ofal yn golygu cynyddu cyfran awdurdodau lleol o'r farchnad, er mwyn cael model darpariaeth cymysg llawn. Bydd mwy o ymgysylltiad gan lywodraeth leol a darparwyr nid-er-elw yn dechrau cyfnod diwygio sy'n hyrwyddo cydgynhyrchu a gwerth cymdeithasol, gyda phwyslais llawer yn gryfach ar y cyfraniad y gall darparwyr ei wneud i fywydau'r bobl y maent yn eu cefnogi ac i'r cymunedau maent yn gweithredu ynddynt.

Mae angen i ni fyfyrion'n frys ar addasrwydd sail asedau strwythurol gofal cymdeithasol mewn ymgais i ddeall beth sy'n addas i'r diben mewn cymdeithas ar ôl COVID-19. Mae angen rhagor o fuddsoddiad cyfalaf i foderneiddio ac addasu cyfleusterau a mannau i'n galluogi i ymgorffori modelau a ffyrdd newydd o weithio sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig. Fel arweinwyr, mae'n rhaid i ni gefnogi'r sector i addasu a gwella. Bydd methu â gwneud hyn yn cael effaith ar gostau refeniw a bydd mannau a chyfleusterau efallai na fyddant yn goroesi'r pwysau hyn.

Er y cafwyd ffocws gwirioneddol ar ddiogelu oedolion agored i niwed mewn cartrefi gofal, ni ddylem golli golwg ar y cymorth a'r gwasanaethau sy'n cael eu rhoi i oedolion agored i niwed yn y gymuned - y rheiny sydd mewn llety byw â chymorth, mewn llety gofal ychwanegol neu mewn llety cysylltu bywydau, ac yn arbennig y rheiny sy'n derbyn gofal cartref. Mae galwadau cynyddol ar wasanaethau a phwysau costau uwch hefyd yn cael eu teimlo gan ddarparwyr gofal cartref, yn enwedig mewn perthynas ag adsefydlu'r cleifion COVID-19 hynny sydd wedi treulio cyfnodau hir yn yr ysbyty neu sy'n dioddef syndrom ôl-COVID-19 (COVID hir). Rydym yn poeni am bwysau costau ychwanegol gofalu am y dinasyddion hyn yn cwmpo'n anghyfartal ar ysgwyddau gofal cymdeithasol, yn enwedig oherwydd bod bylchau cyflenwad a galw ym maes gofal cartref yn codi yn rhai rhannau o Gymru yn dilyn cynnydd sylweddol o bobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i leoliadau cymunedol.

### **Mwy o ddarpariaeth gofal drwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae ADSS Cymru yn credu'n gryf fod yr iaith o ddewis yn hanfodol wrth gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau i'n dinasyddion. Nid yw am gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau yn unig; mae am hawliau dynol sylfaenol - urddas, dewis a rheolaeth. Mae'n rhaid cael rhagor o negeseuon cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ynghylch goblygiadau iaith, diwylliant a threftadaeth o fewn y sector gofal cymdeithasol.

Rydym wedi bod yn gefnogol o fwriad y polisi *Mwy na Geiriau ...*, ond ein profiad yw bod hwn wedi troi'n llai o flaenoriaeth strategol dros y blynyddoedd diwethaf o'i gymharu â'r sylw a gafodd wrth ei gyflwyno am y tro cyntaf. Mae'r fframwaith strategol bron yn ddegawd oed, ac mae angen ei adolygu a'i ddiwygio, fel y gallwn ymgorffori'r amodau cywir ar gyfer newid trawsnewidiol i wasanaethau yn y Gymraeg.

Un ymyrraeth a allai gael ei gweithredu'n genedlaethol yw mentrau hyfforddi ac offerynnau cefnogi gwell i wella cyfathrebu ar lafar. Rydym yn gwybod bod cofnodi iaith yng nghartrefi pobl yn heriol, yn arbennig o amgylch polisi cofnodi clinigol yn erbyn yr hyn y mae'r defnyddiwr gwasanaethau a'i deulu am ei gael. Er bod awdurdodau lleol a darparwyr wedi'u comisiynu'n ceisio bodloni hawliau pobl yn gyson, nid yw'r costau gofal ar hyn o bryd yn ystyried cost darparu gwasanaeth dwyieithog a chost gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu. Mae angen i hyn newid ac mae angen i'r llywodraeth fynd i'r afael ag ef yn ei hadolygiad cyfredol ynghylch gwella trefniadau gofal cymdeithasol a gweithio mewn partneriaeth.